# Munud i Feddwl

## *"It will be a long time ere I'll be back"*



Gwn y dylaswn fod yn sôn rhywbeth am Santes Dwynwen heddiw! Ond ... heno mae'n Noson Burns. Dyma epigram o eiddo Robbie Burns (1759 – 1796; llun), a sgrifennwyd ar ôl iddo fynychu oedfa yn Lamington, pentref tua 40 milltir i'r de orllewin o Gaeredin:

***Divine Service in the Kirk of Lamington*** (1791)

*"As cauld a wind ar ever blew;*
*A caulder kirk and in't but few;*
*As cauld y minister ar ever spak;*
*It will be a long time ere I'll be back.*"

Duw a'n gwaredo rhag i'n bywyd a'n tystiolaeth fel eglwysi fod yn oer a diflas.

Chwip o Santes oedd Teresa o Avila! Dyma un weddi fach o'i heiddo: "*O Dduw, gwared ni rhag defosiynau dwl a seintiau sarrug. Amen.*" (*Mil a Mwy o Weddïau*. Gol. Edwin C. Lewis; tud. 62)
OLlE

**25 Ionawr 2012**